# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Safonau ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch** |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Lewis Owen**<br>**Y Tîm Cydraddoldeb - Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar** |
| **Adran:** | **Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Emma Spear** |
| **Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:** | **Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol** |
| **Dyddiad Cychwyn:** | |

# A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i flwch negeseuon e-bost CRIA @llyw.cymru

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Dewisol wrth arfer unrhyw un neu ragor o'u pwerau.

Mae proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn broses y cytunwyd arni y dylai swyddogion ei defnyddio i helpu Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau. Dylid defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i lywio cyngor gweinidogol a rhaid ei gwblhau cyn gwneud penderfyniad gweinidogol. Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, rhaid cyhoeddi eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hefyd.

*Noder bod gennym Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant ers tro, sy'n cynnwys swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, UNICEF, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, a Plant yng Nghymru, y gellir ei ddefnyddio i drafod neu brofi eich Asesiad drafft. Cysylltwch â'r Gangen Blant CRIA@llyw.cymru am ragor o wybodaeth.*

*I gael rhagor o gyngor ac arweiniad ar broses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, edrychwch ar y Llawlyfr i Staff ar Hawliau Plant neu cysylltwch â'r Gangen Plant drwy e-bostio CRIA@llyw.cymru*

## 1. Amcanion polisi

- Effaith pa benderfyniad ydych chi'n ei asesu?

Mae Llywodraeth Cymru yn ehangu ac yn adnewyddu Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy. Yn 2023, adolygodd Llywodraeth Cymru effeithiolrwydd y Safonau, ac archwiliodd y rhwystrau sy'n wynebu pobl wrth gael mynediad at ofal iechyd. Mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr o GIG Cymru a phartneriaid allanol, datblygodd Llywodraeth Cymru argymhellion a chamau gweithredu gyda'r nod o ddileu rhwystrau a sicrhau bod anghenion cyfathrebu a gwybodaeth cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, rhieni a gofalwyr yn cael eu diwallu yn gyson.

Maent wedi'u hehangu i gynnwys y canlynol:

- Pobl sy'n F/fyddar, pobl sydd wedi colli eu clyw neu sy'n drwm eu clyw, ac arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) (mae'n bwysig nodi hefyd y gwahaniaethau ieithyddol rhwng y gymuned arwyddo BSL Fyddar, a'r rhai sy'n fyddar, wedi colli eu clyw, neu'n drwm eu clyw);

- pobl ddall neu rannol ddall;
- pobl ddall fyddar;
- pobl sydd â rhwystrau mynediad oherwydd iaith a chyfathrebu sy'n deillio o anabledd (gan gynnwys dementia, anableddau dysgu a chyflyrau iechyd meddwl);
- pobl sydd â rhwystrau iaith a chyfathrebu sy'n deillio o niwroamrywiaeth;
- pobl sydd â rhwystrau iaith a chyfathrebu sy'n deillio o lefelau llythrennedd isel;
- rhieni a gofalwyr sy'n wynebu rhwystrau iaith neu gyfathrebu;
- pobl nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith o ddewis (gan gynnwys pobl sy'n ceisio noddfa, ffoaduriaid ac ymfudwyr).

Ystyr 'pobl' yn y cyswllt hwn yw pawb sy'n cael mynediad at wasanaethau – gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Mae'r Safonau yn cael eu hategu hefyd gan y *Weithdrefn Weithredu Safonol: Comisiynu Gwasanaethau Dehongli a Chyfieithu ym maes Gofal Iechyd Sylfaenol ac Argyfwng (SOP)* a'r *Safon Gwybodaeth Hygyrch (AIS).* Mae'r SOP yn ddogfen ganllaw gynhwysfawr ar gyfer staff y GIG i sicrhau bod ansawdd a safonau cyson yn cael eu cynnal wrth gomisiynu gwasanaethau dehongli a/neu gyfieithu. Mae'r AIS yn cyfarwyddo ac yn diffinio dull penodol a chyson o nodi, cofnodi, amlygu, rhannu a diwallu anghenion gwybodaeth a chyfathrebu cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a rhieni ar gyfer meddygfeydd meddygon teulu. Cyhoeddwyd y safon trwy Gylchlythyr Iechyd Cymru yn 2018 ac mae wedi'i chynnwys yn y Safonau hyn er mwyn cysondeb. Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn helpu i ddarparu gwasanaethau teg a chyson er mwyn cefnogi mynediad a gwella profiadau a chanlyniadau cleifion.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnwys pobl. Yn dilyn cymeradwyaeth weinidogol i ehangu ac adnewyddu'r Safonau, cydweithiodd Llywodraeth Cymru â'r rhanddeiliaid hyn er mwyn datblygu'r argymhellion a'r camau gweithredu sydd â'r nod o ddileu rhwystrau a diwallu anghenion cyfathrebu a gwybodaeth cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, rhieni a gofalwyr.

Roedd y grŵp rhanddeiliaid yn cynnwys ystod eang o unigolion, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a'r rhai sy'n meddu ar brofiadau bywyd, gan gynnwys:

Timau Polisi Llywodraeth Cymru

Gweithrediaeth GIG Cymru (Perfformiad a Gwella GIG Cymru erbyn hyn)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain

Anabledd Dysgu Cymru

Lleisiau Dementia

Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall

Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar

Prifysgol Abertawe

Gwasanaeth Cyfieithu Cymru

Roedd cynnwys y safbwyntiau amrywiol hyn yn hollbwysig i ddatblygu safonau wedi'u hadnewyddu a oedd yn mynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth sy'n cael ei heffeithio. Mae ein rhanddeiliaid yn cynrychioli'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau o grwpiau amrywiol o'r boblogaeth, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Pan rydym wedi derbyn adborth a mewnbwn gan randdeiliaid, maent wedi bod yn gyfrifol am ystyried a darparu gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n blant a phobl ifanc, ac am ystyried y ffordd orau o sicrhau bod y Safonau wedi'u hadnewyddu yn gallu gwella mynediad at wasanaethau gofal iechyd iddynt.

Bydd mwy o dystiolaeth a data yn cael eu casglu ar hyd y broses o weithredu'r Safonau wedi'u hadnewyddu, sydd eisoes yn adeiladu ar waith y Safonau blaenorol a oedd yn ymwneud â cholled synhwyraidd yn unig. Hefyd, bydd y mesurau a'r dangosyddion sydd bellach yn rhan o'r Safonau wedi'u hadnewyddu yn gallu darparu gwybodaeth well i ni am ba mor effeithiol mae'r Safonau'n cael eu rhoi ar waith, a fydd yn berthnasol i ddefnyddwyr gwasanaethau o bob math, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Mae anghenion plant a phobl ifanc wedi cael eu hystyried yn ystod y broses hon (gweler isod), a byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Gwyddom fod tystiolaeth sydd ar gael eisoes yn awgrymu bod plant awtistig yn llai tebygol o ddefnyddio rhai gwasanaethau gofal iechyd ataliol o'i gymharu â phlant eraill sydd ag

anghenion gofal arbennig eraill (Arolwg Cenedlaethol o Iechyd Plant, 2008) yn bennaf oherwydd rhesymau synhwyraidd[1]. Os nad yw'r amgylchedd gofal iechyd yn cael ei gynllunio a'i reoli'n briodol, mae rhai astudiaethau yn awgrymu y gallai arwain at fethiant ymyriadau meddygol, a hyd yn oed canslo apwyntiadau ar gyfer plant awtistig. I lawer o blant awtistig, y prif rwystr i gael mynediad at y gwasanaeth gofal iechyd gorau posibl yw gorlwytho synhwyraidd yn yr amgylchedd. Er enghraifft, nododd dros hanner y cyfranogwyr yn yr astudiaethau a adolygwyd eu bod yn cael anawsterau yn yr ystafell aros. Rhai o'r sbardunau mwyaf cyffredin yw lleoedd caeedig, goleuadau llachar, blasau rhyfedd, ac arogleuon rhyfedd. Mae'r amgylchedd yn heriol iawn i blant awtistig os yw'n brysur ac yn swnllyd neu os oes rhaid i blant eistedd wrth ymyl dieithriaid, ac mae'r holl ffactorau hyn yn cynyddu gorbryder y plant a'u rhieni[2].

Mewn achosion lle nad yw gwasanaethau gofal iechyd wedi darparu systemau cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch i gleifion sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw, mae llawer ohonynt wedi gorfod dibynnu ar bartner, plant, teulu neu ffrindiau i gyfieithu neu gyfleu gwybodaeth iddynt mewn apwyntiad[3]. Hefyd, mae'n bosibl y bydd rhai plant byddar yn dod o deuluoedd lle mae'r dewis iaith yn y cartref yn wahanol i iaith y wlad, sy'n sefyllfa gyffredin ymysg teuluoedd sydd wedi mudo. O ganlyniad, mae'n gallu bod yn anodd i ddarparwyr gofal iechyd gyfleu diagnosis ac anghenion y plentyn.[4] Mae astudiaeth arall yn argymell bod angen i ddarparwyr gwasanaethau fod yn fwy ymwybodol y bydd diffyg gwybodaeth gweithwyr, darpariaeth gyfyngedig a’r brwydro diddiwedd y mae’n rhaid i deuluoedd ei wneud yn cael effaith negyddol ar fywyd teuluol, yn achosi straen ac, yn y pen draw, yn effeithio ar iechyd a llesiant y plentyn byddar[5].

Ceir achosion hefyd o blant yn dehongli neu’n cyfieithu ar ran eu rhieni neu eu gwarcheidwaid os nad yw eu rhiant neu eu gwarcheidwad yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel eu dewis iaith. Er enghraifft, gwelir hyn yn nefnydd a phrofiadau ymfudwyr o Ddwyrain Ewrop o wasanaethau iechyd y DU. Pan nad oedd gwasanaethau dehongli neu gyfieithu priodol ar gael, weithiau roedd ymfudwyr o Ddwyrain Ewrop sydd â sgiliau Saesneg cyfyngedig angen rhwydweithiau teuluol a chymdeithasol, ac roedd hyn yn

[1] Barriers and Facilitators of Healthcare Access for Autistic Children in the UK: a Systematic Review | Review Journal of Autism and Developmental Disorders

[2] Barriers and Facilitators of Healthcare Access for Autistic Children in the UK: a Systematic Review | Review Journal of Autism and Developmental Disorders

[3] Stop the Block: The ongoing crisis of NHS ear wax removal services in England

[4] Deaf children from ethnic minority groups - a literature review by the National Deaf Children's Society - 2021

[5] Enablers and barriers for hearing parents with deaf children: Experiences of parents and workers in Wales, UK - Terry - 2023 - Health Expectations - Wiley Online Library

cynnwys yr angen i'w plant gyfryngu mewn cyfarfodydd gofal iechyd[6]. Hefyd, mae adroddiad technegol HEAR 2 wedi nodi rhwystrau iaith fel un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu pobl sy'n ceisio noddfa, yn enwedig anawsterau sy'n gysylltiedig â dehongli a chyfieithu, a chleifion yn dibynnu ar eu plant i ddehongli ar eu rhan eto[7].

Rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gydol y broses o ddatblygu'r Safonau hyn. Mae ein rhanddeiliaid yn cynrychioli'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau o grwpiau amrywiol o'r boblogaeth, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Pan rydym wedi derbyn adborth a mewnbwn gan randdeiliaid, maent wedi bod yn gyfrifol am ystyried a darparu gwybodaeth am eu defnyddwyr gwasanaethau sy'n blant a phobl ifanc, ac am ystyried y ffordd orau o sicrhau bod y Safonau wedi'u hadnewyddu yn gallu gwella mynediad at wasanaethau gofal iechyd iddynt.

## 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Rhagwelir y bydd y Safonau wedi'u hadnewyddu yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc – yn enwedig y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel eu prif iaith; y rhai sy'n wynebu rhwystrau iaith a chyfathrebu oherwydd anabledd, cyflyrau iechyd meddwl neu anawsterau dysgu; y rhai sy'n wynebu rhwystrau iaith a chyfathrebu sy'n deillio o niwrowahaniaeth; a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau iaith a chyfathrebu sy'n deillio o lefelau llythrennedd isel.

Mae cylch gwaith y Safonau wedi'u hadnewyddu bellach yn cynnwys unigolion ag awtistiaeth ac yn ystyried y ffactorau amgylcheddol mewn lleoliadau gofal iechyd sy'n gallu cael effaith negyddol. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar blant ag awtistiaeth, gan sicrhau nad yw amgylcheddau gofal iechyd yn cynnwys gormod o sbardunau a bod y plant hyn yn gallu cael mynediad at fannau mwy cyfforddus heb wynebu trallod diangen oherwydd materion synhwyraidd.

Dylai'r Safonau ddileu'r angen i blant ddehongli neu gyfieithu ar ran eu rhieni/gwarcheidwaid, gan eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ddarparu gwasanaethau cyfieithu a dehongli addas er mwyn osgoi'r angen hwn. Bydd hyn yn rhoi llai o bwysau a disgwyliadau ar blant i gefnogi eu rhieni neu eu gwarcheidwaid yn y modd hwn. Mae'r weithdrefn weithredu safonol ar gyfer comisiynu gwasanaethau dehongli a chyfieithu yn nodi'n fanwl y camau sydd angen eu cymryd i sicrhau bod gwasanaethau priodol yn cael eu darparu ar gyfer y rhai sydd eu hangen.

---

[6] Phung V-H, Asghar Z, Matiti M, et al. (2020). Understanding how Eastern European migrants use and experience UK health services: a systematic scoping review. BMC health services research. 20(1): tt.173

[7] https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2020/07/HEAR-Report-ES-Welsh-FINAL.pdf

Mae cymhwyso'r Safonau wedi'u hadnewyddu hefyd yn sicrhau bod rhieni neu warcheidwaid plant yn gallu deall y wybodaeth am ofal iechyd a/neu driniaeth eu plant os oes ganddyn nhw anghenion cyfathrebu neu wybodaeth ychwanegol eu hunain.

Nid yw'r broses o gymhwyso'r Safonau yn newid o berson i berson, waeth beth yw oedran neu nodweddion yr unigolyn; y gyfarwyddeb graidd yw bod anghenion cyfathrebu a gwybodaeth ychwanegol defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu cofnodi, a bod addasiadau yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod negeseuon a gwybodaeth yn ymwneud â'u gofal iechyd yn glir iddyn nhw neu eu gofalwr.

| **Erthyglau neu Brotocol Dewisol CCUHP** | **Cynyddu (X)** | **Herio (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| *Erthygl 2: Mae gan bob plentyn yr holl hawliau, waeth pwy ydyn nhw, ble maen nhw'n byw, pa iaith maen nhw'n ei siarad, beth yw eu crefydd, beth maen nhw'n ei feddwl, sut maen nhw'n edrych, os ydyn nhw'n fachgen neu'n ferch, os oes ganddynt anabledd, os ydyn nhw'n gyfoethog neu'n dlawd, ac ni waeth pwy yw eu rhieni neu eu teuluoedd neu beth mae eu rhieni neu eu teuluoedd yn ei gredu neu'n ei wneud. Ni ddylid trin unrhyw blentyn yn annheg am unrhyw reswm.* | X | | Mae'r Safonau yn ceisio mynd i'r afael â gwahaniaethu trwy sicrhau mynediad teg at wasanaethau gofal iechyd, gan sicrhau nad yw'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau ag anghenion cyfathrebu a gwybodaeth ychwanegol dan anfantais wrth gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, a'u profiadau ohonynt. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Erthygl 3: Pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau, dylent feddwl am sut y bydd eu penderfyniadau yn effeithio ar blant. Dylai pob oedolyn wneud yr hyn sydd orau i blant. Dylai llywodraethau sicrhau bod rhieni yn amddiffyn ac yn gofalu am eu plant, neu fod pobl eraill yn gwneud hynny pan fydd angen. Dylai llywodraethau sicrhau bod pobl a lleoedd sy'n gyfrifol am ofalu am blant yn gwneud gwaith da.* | X | | Rhagwelir y gall gweithredu'r Safonau wedi'u hadnewyddu arwain at lesiant gwell trwy wella mynediad at wasanaethau gofal iechyd. Mae hyn yn berthnasol iawn i blant a phobl ifanc y disgwylir iddynt ddehongli ar ran eu rhiant neu eu gwarcheidwad ar hyn o bryd. Bydd y Safonau yn dileu'r straen hwn ar blant a phobl ifanc gan fod disgwyl i gyrff y GIG ddefnyddio'r canllawiau sy'n cael eu darparu i gomisiynu gwasanaethau dehongli. |
| *Erthygl 17: Mae gan blant yr hawl i gael gwybodaeth o'r Rhyngrwyd, y radio, y teledu, papurau newydd, llyfrau a ffynonellau eraill. Dylai oedolion sicrhau nad yw'r wybodaeth y mae plant yn ei derbyn yn niweidiol. Dylai llywodraethau annog y cyfryngau i rannu gwybodaeth o lawer o ffynonellau gwahanol, mewn ieithoedd y mae pob plentyn yn gallu eu deall.* | X | | Mae sicrhau bod gan bobl fynediad at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt am eu hiechyd a'u gofal yn ganolog i'r Safonau ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Erthygl 23: Dylai pob plentyn ag anabledd fwynhau'r bywyd gorau posibl mewn cymdeithas. Dylai llywodraethau ddileu'r holl bethau sy'n rhwystro plant ag anableddau rhag bod yn annibynnol a chymryd rhan weithredol yn y gymuned.* | X | | Nod y Safonau wedi'u hadnewyddu yw lleihau'r rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd ar gyfer pobl anabl, sydd hefyd yn cynnwys plant anabl. Bydd plant anabl yn gallu deall eu gofal iechyd yn well, a bydd eu rhieni neu eu gwarcheidwaid hefyd yn gallu deall y negeseuon a'r wybodaeth am eu plant os oes ganddyn nhw unrhyw anghenion cyfathrebu neu wybodaeth ychwanegol eu hunain. |
| *Erthygl 24: Mae gan blant yr hawl i'r gofal iechyd gorau posibl, dŵr glân i'w yfed, bwyd iach ac amgylchedd glân a diogel i fyw ynddo. Dylai pob oedolyn a phlentyn gael gwybodaeth am sut i gadw'n ddiogel ac yn iach.* | X | | Amcan cyffredinol y Safonau wedi'u hadnewyddu yw sicrhau bod cleifion a/neu eu rhieni neu ofalwyr sydd ag anghenion cyfathrebu a gwybodaeth ychwanegol yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd heb rwystrau neu anhawster ychwanegol. Bydd hyn yn berthnasol i ddefnyddwyr gwasanaethau o bob math, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Gall hyn arwain at leihau anghydraddoldebau iechyd i blant ag anghenion cyfathrebu a gwybodaeth ychwanegol gan y byddant yn gallu cael mynediad haws at wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion gofal iechyd. Hefyd, bydd yn gwella eu dealltwriaeth o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gynlluniau triniaeth ac unrhyw wybodaeth arall sy'n gysylltiedig â'u triniaeth. |

- Dylech ystyried a yw unrhyw rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (fel y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.

Bydd y Safonau wedi'u hadnewyddu yn berthnasol i holl ddefnyddwyr gwasanaethau gofal iechyd, waeth beth yw eu dinasyddiaeth.

## 4. Cyngor gweinidogol a phenderfyniad y Gweinidog

Mae canfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn wedi'u cynnwys yn eich cyngor gweinidogol i lywio ei benderfyniad.

## 5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

- *Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog, dylid cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru.*

- *Anfonwch adrannau 1 ac 8 o'ch Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A) at eich rheolwr gwe adrannol i'w cyhoeddi.*

- *Hefyd, rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i flwch e-bost CRIA@llyw.cymru.*

## 6. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

- Os ydych wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ar eich cynnig, sut y byddwch yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?

Nid yw'n berthnasol – rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid sy'n cynrychioli eu holl ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

## 7. Monitro ac Adolygu

- Amlinellwch pa fecanwaith monitro ac adolygu y byddwch chi'n ei sefydlu i adolygu'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Mae mesurau a dangosyddion wedi cael eu datblygu a fydd yn ein helpu i fesur cynnydd yn erbyn y gwaith hwn. Bydd yn ofynnol i bob un o gyrff GIG Cymru adrodd ar ei gynnydd yn erbyn y mesurau a'r dangosyddion hyn i Lywodraeth Cymru fel rhan o'i asesiadau sicrwydd polisi ddwywaith y flwyddyn. Hefyd, bydd y Safonau wedi'u hadnewyddu yn cael eu hadolygu bob dwy flynedd a'u diwygio yn ôl yr angen gan y grŵp rhanddeiliaid er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn gweithio i'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau yn gyson.

| | Rhif | Dangosydd |
|---|---|---|
| **COFNODION CLEIFION (AIS)** | **1** | Canran y bobl sydd â'u hanghenion cyfathrebu a gwybodaeth (gan gynnwys y Gymraeg) wedi'u cofnodi gan eu lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol. |
| | **2** | Cyfran y practisau meddygon teulu sy'n rhannu gofynion cyfathrebu cleifion penodol (gan gynnwys y Gymraeg) gyda lleoliadau gofal iechyd ehangach yn unol â'r AIS. |
| **CYFLEUSTERAU** | **3** | Derbynfeydd – Cyfran y derbynfeydd sy'n darparu adnoddau hygyrch er mwyn helpu cleifion i gyfathrebu h.y. dolenni clyw, system archebu aml-iaith, gwybodaeth hawdd ei deall. |
| | **4** | Ardaloedd ymgynghori[8] – Cyfran yr ardaloedd ymgynghori sy'n darparu adnoddau hygyrch i gefnogi anghenion cyfathrebu cleifion yn ystod y broses ymgynghori. |

[8] Mae'r 'ardal ymgynghori' yn berthnasol yn y mannau canlynol:
- Y mannau mewn ysbyty, clinig neu gartref lle mae cleifion yn preswylio, yn derbyn triniaeth, neu yn gallu eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau bob dydd.
- Unrhyw ardal mewn cyfleuster gofal iechyd y mae cleifion yn ei mynychu, gan gynnwys achosion dydd, derbyniadau brys i'r ysbyty, wardiau cleifion mewnol, lleoliadau diagnostig, a chlinigau cymunedol.
- Adran neu wasanaeth sydd â chysylltiad uniongyrchol â diagnosis, triniaeth neu adsefydlu cleifion.
- Ambiwlans.

| | | |
|---|---|---|
| **CYDYMFFURFIAETH Â'R WEITHDREFN GWEITHREDU SAFONOL** | **5** | a) Nifer yr apwyntiadau/gwasanaethau ym maes gofal sylfaenol a gyrchwyd trwy Wasanaeth Cyfieithu Cymru. |
| | | b) Nifer yr apwyntiadau/gwasanaethau ym maes gofal eilaidd a gyrchwyd trwy Wasanaeth Cyfieithu Cymru. |
| | | c) Nifer yr apwyntiadau/gwasanaethau a gyrchwyd trwy wasanaethau iaith ar gais. |
| | **6** | Cyfran yr apwyntiadau ar yr un diwrnod sy'n cael eu gwneud gan bobl nad ydynt yn gallu defnyddio'r ffôn. (Cam 2 yn dilyn Prosiect Gwella Ansawdd GMS) |
| | **7** | Cyfran yr Apwyntiadau Heb eu Mynychu (DNAs) a'r Apwyntiadau Nad Oedd Modd eu Mynychu (CNAs) a gofnodwyd yn erbyn pobl ag anghenion cyfathrebu a gwybodaeth ychwanegol. (Cam 2 yn dilyn Prosiect Gwella Ansawdd GMS) |
| HYFFORDDIANT | **8** | Cyfran Staff y GIG (gan gynnwys contractwyr) sy'n mynychu:<br>a) Hyfforddiant Trin Fi'n Deg Gorfodol; ac<br>b) Yn gweithio gyda Dehonglwyr a Chyfieithwyr ym maes hyfforddiant y Sector Cyhoeddus (wedi'i ddarparu gan Wasanaeth Cyfieithu Cymru). |
| | **9** | Cyfran staff y GIG (gan gynnwys contractwyr) sy'n datgan sgiliau iaith ychwanegol ar y Cofnod Staff Electronig y tu hwnt i'r Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain.[9] |
| | **10** | Cyfran staff y GIG (gan gynnwys contractwyr) sy'n cwblhau gweithgareddau DPP ychwanegol sy'n berthnasol i'r Safonau. |

[9] Ni ddylai datgan sgiliau iaith yn y gweithle ei gwneud yn ofynnol na chreu disgwyliad bod staff yn ymgymryd â gwaith cyfieithu a dehongli fel rhan o'u gwaith proffesiynol oni bai bod hyn wedi'i nodi'n benodol yn eu disgrifiad swydd; mae hyn yn digwydd yn ôl disgresiwn ar sail hyder staff unigol. Nid yw hyn yn disodli gwasanaeth cyfieithu neu ddehongli proffesiynol.

| | | |
|---|---|---|
| **PROFIAD POBL** | **11** | Canran y bobl sy’n derbyn gwybodaeth am eu gofal iechyd mewn fformat hygyrch a dealladwy (gan gynnwys y Gymraeg). |
| | **12** | Canran y bobl sy’n nodi eu bod yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith (gan gynnwys y Gymraeg). |
| | **13** | Canran y bobl sy’n graddio eu profiad cyffredinol fel a ganlyn:<br>• Gwael iawn<br>• Gwael<br>• Ddim yn dda nac yn wael<br>• Da<br>• Da iawn |

Mae trefniant llywodraethiant wedi'i sefydlu i sicrhau bod y Safonau yn parhau i fod yn addas i'r diben. Bob dwy flynedd yw'r cyfnod adolygu presennol.

- Yn dilyn yr adolygiad hwn, a fydd angen cyflwyno unrhyw ddiwygiadau i’r polisi neu i’r modd y caiff ei weithredu?

Gweler uchod.